PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO

DYDD MAWRTH, 28 MAI 2024

PRESENNOL Cynghorydd R.E. Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

B. Davies	J.K. Howell	M. Palfreman	M. Thomas

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

K.V. Broom	W.R.A. Davies	T. Davies	H.L. Davies
D. Owen	R. Sparks	A. Leyshon	

Hefyd yn bresennol:
Cynghorydd L.D. Evans - Aelod Cabinet dros Gartrefi a Dirprwy Arweinydd
Cynghorydd H.A.L. Evans - Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth
Cynghorydd D. Cundy – Ar gyfer eitemau agenda 6 a 7

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol
I. Jones, Pennaeth Hamdden
J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd
D. Jones, Cyfrifydd Grwp
T. Bufton, Town Centre Regeneration Manager
R. Parkinson, Arweinydd Tim - Cyngor ynghylch Tai
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.10 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B.W. Jones a H.B Shepardson.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Y Cynghorydd	Rhif(au) y Cofnod	Y Math o Fuddiant
R. Sparks	5 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb	Mae ganddo fusnes

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

	Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2023/24	nofio ac mae'n cynnal gwersi nofio, ac mae ganddo ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ar hamdden ond nid pleidleisio
R. Sparks	11 - Defnyddiau Canol Tref Amgen	Mae ganddo fusnes nofio ac mae'n cynnal gwersi nofio, ac mae ganddo ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ar hamdden ond nid pleidleisio
R. Sparks	12 – Prosiectau Datblygu Mawr – Adfywio	Mae ganddo fusnes nofio ac mae'n cynnal gwersi nofio, ac mae ganddo ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ar hamdden ond nid pleidleisio
M. Palfreman	11 – Defnyddiau Canol Tref Amgen	Mae'n rhedeg gwasanaethau Ymgynghoriaeth Gofal Cymdeithasol ac mae ganddo ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ond nid pleidleisio ar y materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'i fusnes neu weithgareddau proffesiynol cysylltiedig

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. ADRODDIAD DIWEDDARU - DYRANNU TAI CYMDEITHASOL BRYS YNGHYLCH RHOI'R POLISI DYRANNU NEWYDD AR WAITH (MONITRO)

Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2023, cafodd y Pwyllgor adroddiad monitro ar effeithiolrwydd y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys newydd a luniwyd gan ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys data ar gyfer y cyfnod blaenorol yn ymwneud â'r canlynol:

1. Cyfran yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol a'r rhai a hysbysebwyd,
2. Bandiau'r cleientiaid a barwyd yn uniongyrchol,
3. Nifer yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol ac a hysbysebwyd gan bob ardal gymunedol, math o eiddo a landlord,
4. Cyfran yr achosion o baru uniongyrchol a oedd yn llwyddiannus,
5. Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle gofynnodd y cleient am adolygiad o'r dyraniad, a chanlyniad yr adolygiadau hynny,
6. Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle gwrthododd y cleientiaid y dyraniad ond heb ofyn am adolygiad.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn am y rheswm dros y cynnydd yn nifer yr achosion o baru anaddas o ran eiddo rhwng chwarter 3 a chwarter 4 2023-24, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor ei fod yn ymwneud yn bennaf ag eiddo a gynigir i bobl ym Mand B, a oedd â'r hawl i wrthod hyd at ddau gynnig rhesymol o eiddo. Nodwyd bod agwedd ar y polisi yn cael ei hadolygu fel rhan o ddatblygiad y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Newydd ac y byddai'n cael ei chynnwys yn y polisi i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad monitro.

5. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

(NODER: Roedd y Cynghorydd R. Sparks wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau Monitro Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2023/24 y Gwasanaethau Tai, Adfywio, ac Eiddo, Lle a Chynaliadwyedd a Hamdden ac Adloniant ar gyfer y cyfnod hyd at 29 Chwefror 2024. Nododd y rhagwelid tanwariant o £181k yn y gyllideb refeniw, tanwariant o £38,256k yn y gyllideb gyfalaf, a gorwariant o £46k yn y Cyfrif Refeniw Tai.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf yn cael ei dderbyn.

6. ADRODDIAD GRWP GORCHWYL A GORFFEN Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO - POLISI ADDASIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i archwilio gweithrediad Gwasanaeth Addasiadau'r Cyngor o fewn Is-adran Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol yr Adran Gymunedol mewn perthynas â'r ôl-groniad presennol o waith a'r prosesau, gyda'r bwriad o wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd a deiliaid contractau (tenantiaid).

Roedd yr adroddiad yn manylu ar waith y Grŵp gan gynnwys llunio Polisi Addasiadau i'r Cartref diwygiedig, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiad 1, ynghyd ag argymhellion i'r Pwyllgor eu hystyried a fyddai, pe byddent yn cael eu mabwysiadu, yn cael eu hanfon ymlaen at Gabinet y Cyngor i'w hystyried.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at yr argymhelliad i ailgyflwyno prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar raddfa ganolig a gofynnwyd am eglurhad ynghylch y golled ganlyniadol o £122k o Gyllid Grant Cymru pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad.

  Dywedodd Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol fod yr argymhelliad wedi codi o ganlyniad i'r cynnydd mewn ceisiadau grant a dderbyniwyd yn dilyn dileu profion modd yn 2022. Credwyd y byddai eu hailgyflwyno yn galluogi i gyllid gael ei ddargyfeirio i'r rhai sydd mewn mwy o angen, gyda'r rhai sy'n gallu fforddio gwneud addasiadau yn talu amdanynt eu hunain a fydd, yn ei dro, yn cynorthwyo i reoli'r galw am grantiau.

  O ran colli grant Llywodraeth Cymru, roedd dadansoddiad o ddata yn seiliedig ar nifer y ceisiadau grant rheolaidd a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd yn dilyn cael gwared ar brofion modd wedi datgelu cynnydd net o £164k y flwyddyn mewn cyllid.
- Cyfeiriodd y Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol at gwestiwn ynghylch casgliad 2 ac argymhelliad 5 o fewn yr adroddiad yn ymwneud â'r pwysau ar adnoddau staffio ac i weld a ellid cysylltu â'r Bwrdd Iechyd i gyfrannu at hynny ar y sail bod gwaith y tîm addasiadau yn cynorthwyo i atal derbyniadau i ysbytai. Dywedodd fod yr awdurdod yn cysylltu â'r Bwrdd Iechyd ynghylch ystod o faterion yn ymwneud ag addasiadau, gan gynnwys rhyddhau cleifion, a gellid cynnal trafodaethau gyda'r Bwrdd ar unrhyw gyfraniad posibl tuag at yr adnoddau hynny.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL argymell i'r Cabinet:

6.1 Y gofynnir i Gabinet y Cyngor ystyried ailgyflwyno prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar raddfa ganolig

6.2 Bod y Polisi Addasiadau Drafft diwygiedig (sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad) sy'n cynnwys diwygiadau awgrymedig y

Grŵp ar gyfer newid yn cael ei fabwysiadu yn amodol ar i'r Cabinet ystyried argymhelliad 1 uchod.

6.3 Bod Amodau Ad-dalu Grant ar yr holl Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl dros £5,000 os yw'r eiddo'n cael ei werthu o fewn 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r addasiad gyda'r eithriadau canlynol yn unig:

a) **Caledi ariannol**
b) **Symud am resymau cyflogaeth**
c) **Symud i ofal preswyl**

6.4 Nid ystyrir addasiadau ar gyfer plant maeth a leolir yn Sir Gaerfyrddin gan Awdurdod Lleol arall oni bai y bodloni'r meini prawf yn y polisi.

6.5 Bod staffio'n cael ei adolygu i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ddelio â'r galw mawr parhaus am y gwasanaeth.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO 2023/2024

Cafodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor a'i fod yn rhoi trosolwg o'r rhaglen waith a materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion a gyfeiriwyd at neu gan y Cabinet, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen a sesiynau datblygu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Blynyddol 2023-24.

8. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, TAI AC ADFYWIO AR GYFER 2024/25

Bu'r Pwyllgor, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn ystyried ei Flaengynllun Gwaith drafft ar gyfer 2024/25 a oedd yn nodi manylion materion ac adroddiadau i'w hystyried yn ystod y blwyddyn y cyngor. Nodwyd, gan fod y Cynllun yn 'ddogfen fyw', y byddai'n esblygu'n barhaus trwy gydol blwyddyn y Cyngor wrth i Flaengynllun y Cabinet esblygu ac yn sgil ceisiadau gan y Pwyllgor.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn ymwneud â'r ôl-groniad o waith atgyweirio tai gwag, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y mesurau amrywiol oedd yn cael eu cymryd gan yr adran i leihau'r rheiny, gan gynnwys creu tîm o weithwyr mewnol ac ailosod y Fframwaith Gwaith Eiddo er mwyn galluogi contractwyr lleol llai i wneud cais i gael eu cynnwys yn y fframwaith a gwneud gwaith atgyweirio. Ar hyn o bryd, roedd lefelau'r tai gwag wedi gostwng i 180 o'i gymharu â'r lefel uchaf flaenorol o dros 400 ym mis Mai 2022, gan arwain at 250 o eiddo ychwanegol ar gael i'w gosod ac incwm rhent cynyddol o bron i £1m. Dywedodd y byddai'n trefnu bod adroddiad diweddaru ynghylch tai gwag yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaengynllun Gwaith drafft 2024/25 yn amodol ar ychwanegu adroddiad diweddaru ynghylch tai gwag.

9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 16 EBRILL 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Ebrill, 2024 gan eu bod yn gywir.

10. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf

11. DEFNYDDIAU CANOL TREF AMGEN

(NODER:

1. Roedd y Cynghorydd R. Sparks wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried)
2. Wrth ystyried yr eitem hon, roedd y Cynghorydd Palfreman wedi datgan buddiant, sef ei fod yn rhedeg gwasanaethau Ymgynghoriaeth Gofal Cymdeithasol ac mae ganddo ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig, ond nid pleidleisio ar faterion sy'n cynnwys yn uniongyrchol ei fusnes neu weithgareddau proffesiynol cysylltiedig. Arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ystyried yr eitem)

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 10 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod gan y byddai datgelu cynnwys yr adroddiad o bosibl yn tanseilio'r Cyngor mewn trafodaethau yn y dyfodol gyda thirfeddianwyr.

Cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar gynigion adfywio canol tref sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ar gyfer defnyddiau canol tref amgen posibl yng nghanol trefi Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

12. PROSIECTAU ADFYWIO DATBLYGIADAU MAWR

(NODER: Roedd y Cynghorydd R. Sparks wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried)

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 10 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu cynnwys yr adroddiad yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Cyngor drwy danseilio ei safbwynt mewn trafodaethau yn y dyfodol ynghylch y prosiectau hyn.

Cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar Brosiectau Datblygu Mawr - Adfywio sy'n cael eu cynnal yn Sir Gaerfyrddin.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf